# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 4**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR MEWN LLEOEDD HEBLAW SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 2**

Y WEITHDREFN AR GYFER CODI'R DRETH

## 53 Llog taliadau hwyr

(1) Mae adran 157 o DCRhT (llog taliadau hwyr ar drethi datganoledig) (a amnewidir gan baragraff 58 o Atodlen 23 i DTTT) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i swm o dreth gwarediadau tirlenwi a godir gan hysbysiad codi treth a ddyroddir o dan adran 49 neu 50 o DTGT."

(3) Yn is-adran (3), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) yn achos swm sydd o fewn is-adran (1A), y dyddiad sy'n union ar ôl diwedd y cyfnod a bennir yn adran 51 o DTGT."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 53 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 53 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 53.